

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	13 HYDREF 2016
TEITL:	DIWEDDARIAD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH
AWDUR:	GWENLLIAN MAIR WILLIAMS Swyddog Datblygu Iaith Gweithle
PWRPAS YR ADRODDIAD	Rhoi diweddariad i'r aelodau ar y camau a gymerwyd i weithredu ar y Safonau Iaith ers iddynt ddod yn weithredol ddiwedd Mawrth 2016

1. CEFNDIR

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar y 31 o Fawrth 2016. Roedd llawer o waith wedi ei wneud cyn y dyddiad hwnnw i sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa gadarn i fod yn cydymffurfio, gan gynnwys aildrafftio a chyhoeddi Polisi Iaith y Cyngor.

2. CAMAU GWEITHREDU

Ers mis Mawrth bu'r pwyslais ar gynnal trafodaethau a chodi ymwybyddiaeth Rheolwyr a staff am ofynion y Safonau, a chynghori ar unrhyw newidiadau neu ystyriaethau angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae hyn wedi cynnwys:

- Rhoi mewnbwn i hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith y Gwasanaeth Oedolion ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd.
- Cynghori ar ofynion ieithyddol Fframwaith Buddiannau Staff newydd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn cyd-fynd a gofynion y Safonau.
- Cynghori ar newidiadau i gytundebau lefel gwasanaeth, gan gynnwys cytundeb ar gyfer darpariaeth Gofal Cartref a chyda Nofio Gwynedd, er mwyn sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth yn mynd yn groes i ofynion y Polisi a'r Safonau.
- Mynychu gweithdy a chyfarfodydd Mwy na Geiriau, a drefnir gan y gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu a drafodir i ymateb i her Mwy na Geiriau hefyd yn ateb gofynion y Safonau.
- Mynychu cynadleddau ym Mhrifysgol Bangor ar newid ymddygiad er mwyn dysgu ffyrdd newydd o ddylanwadu ar y gweithlu.

- Cyfarfod timau rheolwyr a staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion a'r disgwyliadau yn sgil y Safonau, gan gynnwys:
 - Tîm Rheoli Economi a Chymuned
 - Rheolwyr adran Ymgynghoriaeth Gwynedd
 - Uwch swyddogion Cyllid ac Ymgynghoriaeth.

Mae Cynllun Cyfathrebu hefyd yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda'r tîm cyfathrebu, fydd yn sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu trosglwyddo i'r gweithlu am yr hyn sydd yn ddisgwyliedig er mwyn cydymffurfio gyda'r Safonau.

Mae'r e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith wedi ei gwblhau, ac yn y broses o gael ei brofi. Bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Hydref, a bydd angen ystyried ffyrdd o ledaenu gwybodaeth amdano er mwyn sicrhau bod cynifer a phosib o'r staff yn ei gwblhau.

3. CAMAU NESAF

Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf fydd rhoi'r cynllun cyfathrebu ar waith er mwyn sicrhau bod holl staff y Cyngor yn ymwybodol o'r gofynion ac yn deall yr angen i gydymffurfio efo'r Safonau. Bydd mwy o gyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda thimau penodol hefyd, er mwyn trafod y Safonau yng nghyd-destun gwaith penodol yr adrannau.

Croesewir unrhyw sylwadau ar y diweddariad a'r cynnydd hyd yma gan aelodau'r Pwyllgor.